# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fawrth – 10ed o Hydref, 2023 |
| **AMSER** | 7 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Festri Capel Isaf, Llithfaen |
| **CADEIRYDD** | Lois Fychan |

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Llyr ap Rhisiart sydd wedi ymuno ar gyfer trafodaeth ar bwynt 7.

**YN BRESENNOL:**

Sianelen Pleming **(SP);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Sara Williams **(SW);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Olwen Roberts **(OR)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Emlyn Williams **(EW);** Ynyr Ellis **(YE).**

**3. COFNODION CYFARFOD MEDI 2023**

**i. CYFLWYNO A MABWYSIADU**
Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan SW gyda GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno
Y clerc i nodi nad oedd YE yn y cyfarfod

**ii. MATERION YN CODI**

**a) ARWYDDION LÔN RHOSYDD**
Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson yn adrodd ei fod wedi trafod cais y Cygor am arwyddion 'pobl yn cerdded yn y ffordd' gyda ei bennaeth ond yn anffodus nid yw gosod yr arwyddion yma yn ganiataol yn unol a'r canllawiau caeth presennol. Ymddiheurodd ac esboniodd ymhellach ei bod yn orfodol iddynt ddilyn y rheolau pan yn adolygu'r math yma o ceisiadau.
Y clerc i yrru'r ei ohebiaeth ymlaen i JG

**b) OR - ANGEN BARBIO LONYDD LLITHFAEN**
Roedd GJ am adrodd y gôr dyfiant ar y wal i gyfeiriad Nefyn i'r tîm tacluso.
Dim barbio wedi ei wneud – dim glanhau wedi ei wneud gan y tim tacluso y clerc i adrodd i Priffyrdd Dwyfor

**c) MAINC LON CARNGYWCH**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu a 101 am gamddefnydd or fainc a photeli gwydr wedi torri yn ôl pob tebyg gan blant yn yfed dan oed.
Y clerc i ofyn am ddiweddariad gan JG

**d) CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG**
Derbyniwyd ohebiaeth gan GJ yn adrodd bod y mater yn parhau ac i'w drafod yn y cyfarfod nesaf

**e) OW - CAIS AM DWMPATHAU CYFLYMDER AR GYFER LLITHFAEN**
Derbyniwyd ohebiaeth i gais yr aelodau am ddiweddariad parthed addewid y Prif Swyddog Traffic am dwmpathau ochor Pistyll yn Llithfaen yn adrodd bod y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn blaenoriaethu'r gwaith o newid cyfyngiadau cyflymder o fewn cymunedau o 30mya i 20mya. Byddai modd cyflwyno ymateb

| | |
|---|---|
| | llawn i'r ymholiad yma cyn gyntaf a byddai y cynllun 20mya wedi dod i ben felly bod gennym fwy o amser i rhoi sylw i'r mater.<br>Ail yrru'r e.bost i JG<br><br>f) **GJ - LON GROES / BWLCH GWYNT ROAD**<br>Gyrrwyd ohebiaeth pellach i'r adran Iaith y Cyngor Sir, nid oes diweddariad cadarn i'w adrodd ar hyn o bryd gan eu bod yn gweithredu yn gyfreithiol ar y mater.<br><br>g) **OR - TWLL YN LÔN O FLAEN MYNEDFA CARNGUWCH BACH**<br>Wedi ei ychwanegu i raglen waith y Priffyrdd Dwyfor. Adroddodd yr aelodau fod y gwaith wedi ei gwblhau.<br><br>h) **OR – CROGCHWYN GER Y CAE CHWARAE A LON RHOSYDD**<br>Wedi cael ei ychwanegu rhaglen waith Priffyrdd Dwyfor sydd yn cychwyn yn yr wythnosau nesaf<br><br>i) **CAIS I DORRI GWAIR MYNWENT LLITHFAEN**<br>Llythyrwyd gyda'r Fynwent – ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn<br>OR - Golwg ofnadwy yn fynwent rhiw un wedi claddu llwch yn ddiweddar yn cwyno<br><br>j) **OR – ANGEN ARWYDD YN GIÂT GORS LWYD – PLEASE SHUT THE GATE**<br>Nid yw'r giât yn gyfrifoldeb y Cyngor Sir.<br>Y clerc i archebu arwydd metal, OW argymell archebu arwydd yn rhithiol<br><br>k) **EW - PANT YN Y LON WRTH GWYNFA WEDI GWAETHYGU**<br>Wedi ei ychwanegu i raglen gwaith y Cyngor Sir. Y gwaith wedi ei gwblhau.<br><br>l) **ARWYDDION AR GORNEL Y FFORDD OCHOR UCHAF I LITHFAEN**<br>Derbyniwyd cais gan y Cyngor Sir i'r Cyngor Cymuned sicrhau eu bod yn cael ei tynnu o'r safle<br>Arwydd y Fic wedi dynnu a'i symud ar ben wal.<br><br>m) **CYSGODFAN BWS LLITHFAEN**<br>Llythyrwyd a'r adran Cludiant i Gyngor Gwynedd yn anffodus cafwyd ei gyrru i'r cyfeiriad anghywir. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Maic Pistyll – coed wedi pydru i gyd wedi ei gwneud yn saff am y tro<br>Gofyn i GJ ei ychwanegu i raglen y tim tacluso |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS/APP REF: C23/0748/43/LL -** PENRHOS BWLCH GWYNT, PISTYLL, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6LP<br>CODI BLOC STABLAU NEWYDD<br><br>**DILYN A DARGANFOD**<br><br>Cwestiynu maint y sied hefyd wedi dod i sylw'r Cyngor bod sied wedi ei chodi yn ddiweddar |
| **7.** | **YMDDIRIEDOLAETH TIR BRO'R EIFL** |
| | Diolchodd Llyr ap Rhisiart am y gwahoddiad ar cyfle i drafod y fenter.<br><br>Pwysleisiodd nad oes unrhyw fwriad penodol i adeiladu mwy o dai yn unman, bwriad yr Ymddiriedolaeth Tir yw i ddod a hen dai yn nol i ddefnydd neu warchod unrhyw ased o fewn y gymuned. |

| | |
|---|---|
| | Esboniodd mae sefydliad tebyg i Town Trust yn Lloegr yw hwn ple mae cymunedau yn dod at ei gilydd ac yn dod a hen dai yn ôl i ddefnydd ac adeiladu tai newydd os bo galw.<br><br>Mae cynllun peilot yn Nwyfor eisoes wedi ei sefydlu i ymwneud ac ail gartrefi, a gan ei fod wedi dangos diddordeb yn hyn Cysylltodd Llywodraeth Cymru a Llyr ddwy flynedd yn ôl yn holi am ei ddiddordeb i sefydlu Ymddireidolaeth Tir.<br><br>Sefydlwyd pwyllgor a thrafodaethau gyda hwylyswyr tai gwledig a gwneuthpwyd asesiad o anghenion tai lleol yn Llithfaen, Llanaelhaearn a Threfor yn benodol gyda Pistyll hefyd erbyn diwedd.<br><br>Gwnaethpwyd adroddiad ac argymhellion bythefnos yn ôl o ganlyn derbyn 65 o ymatebion i'w ymgynghoriad.<br>Yn gryno adroddodd:<br><br>• Bod angen tai wedi ei ddatgan<br>• Canran angen tai rhent, canran angen tai i'w prynu<br>• Canran angen adeiladu tai<br>• Pwyslais mwyaf oedd dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd<br><br>Nodwyd bod y Cyngor Sir yn adrodd bod hyd at 700 o pobol ddigartref yng Ngwynedd, nid oedd ganddo ffigwr lleol. Sydd yn syfrdanol gan fod Gwynedd ar dop rhestr Prydain hefo tai gwag heb ddefnydd. Nid oedd hyn yn cyfri tai haf.<br><br>Tu hwnt i hyn mae poblogaeth sydd yn heneiddio, llai o blant sydd yn cael effaith ar sut mae'r boblogaeth yn datblygu, i berwyl hyn teimlodd bod angen denu pobol yn ôl i fyw yn yr ardal.<br><br>Bydd yn cyfarfod gyda Ymddiriedolaeth Tir Llyn ar y 16 o Hydref hefyd bydd yn cyfarfod ac Ymddiriedolaeth Tref Nefyn i drafod y fenter ymhellach. Bydd digwyddiad yng Nghanolfan Canol Meinciau yr wythnos nesaf gyda gwahoddiad hefyd i aelodau'r Cyngor.<br><br>Rhoddodd wahoddiad i aelodau'r Cyngor ymuno a Phwyllgor yr Ymddiriedolaeth.<br><br>OH – Ydi Tai Gwynedd yn rhan o'r Cynllun?<br>Nid oedd amser gan y sefydliad rhagor, corff ambarél I Tai Gwynedd yw'r Ymddiriedolaeth<br><br>SP – Yw Adra a Tai Cynefin yn gysylltiedig<br>LLARH – Adra a Grŵp cynefin fydd yn gwneud y gosod ond Yr Ymddiriedolaeth sydd yn penderfynu pwy fydd yn byw yn y tai. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel Asiant i'r sefydliadau.<br><br>Rhannodd SP bryderon am y galw yn lleol o ganlyn ceisiadau am wybodaeth oedd wedi ei derbyn gan y Cyngor yn y gorffennol am drigolion Lleol gyda dymuniadau byw mewn tai rhent. E.e tai ar osod a neb lleol eisiau byw ynddynt. Mae rhan fwyaf o deuluoedd ifanc yn cael byw yn lleol.<br>Esboniodd nad oedd yn erbyn y Cynllun ond teimlodd mai i fantais mewnfudwyr fydd hyn. Roedd yn cydnabod y galw yn Trefor ond nid yn Llithfaen. Rhannodd hefyd bryderon am y Gymraeg.<br>LLARH – Mae dyletswyddau statudol ar Grŵp Cynefin ac Adref i ail gartrefu teuluoedd pryn ta lleol neu o bell sydd mewn argyfwng. Hefyd rhaid cadw mewn golwg rhestr aros y Cyngor Sir ac yn debygol canran isel ofnadwy sydd o bobol yn nodi ei dymuniad cyntaf fel Llithfaen, Pistyll, Trefor a Llanaelhaearn i fyw. Os nad yw'r pentrefi yma yn ddeniadol sydyn iawn byddent yn dirywio.<br><br>SW – O ble mae'r pres yn dod<br>LLARH – Bydd yr Ymddiriedolaeth yn menthyg ar gyfer prynu tai gwag. Bydd posib hefyd i'r Ymddiriedolaeth warchod adnoddau pwysig yn y pentrefi. |
| **8.** | **APÊL DIFFIBLWR I BISTYLL** |
| | Cais gan JG:<br>• Oes modd gofyn i Gillian hyrwyddo'r apêl yn y papurau lleol ?<br>Nid oedd yr aelodau yn teimlo mai baich y Cyngor yw hwn y clerc i ofyn i JG neu GJ ei hysbysebu yn Llanw Llyn neu'r Ffynnon<br>• Un digwyddiad i godi arian yn gyhoeddus – noson yn y Fic, taith gerdded?<br>Nid oedd yr aelodau yn teimlo mai baich y Cyngor yw hwn y clerc i ofyn i JG neu GJ ei drefnu |

| | |
|---|---|
| **9.** | **YMATEB UN LLAIS CYMRU I GAIS AM HYFFORDDIANT GYMRAEG** |
| | Adroddodd y clerc ymateb Un Llais Cymru I gwyn y Cyngor Cymuned I'r Uwch Reolwr Comisiwn y Gymraeg yn ogystal i gohebiaeth a yrrwyd i JG.<br>Y clerc i ofyn am hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y Cadeirydd |
| **10.** | **RHAGLEN WAITH TRAFNIDIAETH A PRIFFYRDD MIS HYDREF, 2023** |
| | Adroddodd y clerc bydd Gwaith yn cael ei baratoi gan y Cyngor Sir ar Grid Gwartheg – Gwynys, Pistyll |
| **11.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Adroddodd SP am lwyddiant y Ganolfan i sicrhau nawdd i wneud cwbwl y gwaith sydd ei angen gan ANHE a SPF. |
| **12.** | **MAES PARCIO'R EIFL** |
| | Derbyniwyd ohebiaeth gan y cyfreithiwr yn cadarnhau eu fod wedi gyrru telerau (amodol i gytundeb / heb ragfarn) eu ymlaen i gyfreithwyr Bryn Fynnon. Roedd wedi gofyn am ddiweddariad erbyn y 9fed o Hydref.<br><br>a) bydd fy nghleient (ac unrhyw ddefnyddwyr eraill) a'th gleient yn parhau i ddefnyddio'r "trac" fel ei gilydd yn unol â fel sydd wedi bod yn digwydd yn y gorffennol;<br>b) ni fydd dy gleient yn gwneud unrhyw beth i atal/rhwystro/ymyryd â gallu fy nghleient ac unrhyw drydydd parti i ddefnyddio'r "trac";<br>c) ni fydd dyletswydd ar fy nghleient i gynnal a chadw'r "trac"; a<br>d) ni fydd fy nghleient yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, hawliad ayyb o ganlyniad i ddefnyddio'r "trac".<br><br>Cytunwyd i SP ac OR drefnu cyfarfod gyda Mrs. Young i gadarnhau telerau ac amodau er mwyn eu gyrru mlaen i gyfreithiwr y ddwy ochor. |
| **13.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) SP – Cyfarfod nos Iau am 6.30 yn Capel Isaf<br>Cyfarfod hyfforddiant gorchwylio cyflymder – cytuno ar safleoedd i'w gorchwylio i gynnwys Pistyll<br>Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor ryddhau swm o arian i archebu'r gwn – SP i gadarnhau maint<br><br>b) OH - Lon Groes - anodd gweld heibio arwydd gwyliwch cyflymder<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir |
| **14.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | Rhannwyd y wybodaeth isod, ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>a) Hyfforddiant Hydref – Un Llais Cymru<br>b) Grant Cynlluniau Bwyd A Croeso Cynnes<br>c) Cylchlythyr Rhif 1 Un Llais Cymru<br>d) Cyfarfod Cyhoeddus - Ambiwlans Awyr - Ysgol Glan Y Môr O 18.30-19.30yh Ar Mercher 18fed Hydref<br>e) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Dwyfor) (Cyfyngiad Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023<br>f) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Dwyfor) (Cyfyngiad Cyflymder 30 M.Y.A.) 2023<br>g) Hunaniaith – Holiadur - Y Gymraeg Mewn Cynghorau Tref A Chymuned A'r Gymraeg<br>h) Tai O Dan Arweiniad Y Gymuned - Diwrnod Gwybodaeth - Yn Congl Meinciau Ar Yr 18fed O Hydref Rhwng 1yp A 4yp.<br>i) Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion<br>j) Cau Banc Barclays, Pwllheli – Cyfarfod Ar Zoom Dydd Llyn 16 O Hydref<br>k) Apêl Ambiwlans Awyr Cymru 2023 |

| | |
|---|---|
| **15.** | **CYLLID** |

a) **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2023/24**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | £9,614.09 |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | £2,671.02 |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | £0.00 |
| + | **GWARGED 2023 / 2024** | | £8,325.54 |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 20,610.65** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Fedi i 30 o Fedi 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£19,070.56** |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £876.70 |
| Balans Cau | = | **£18,193.86** |

**CYFRIF CADW - 07 Fai i 6ef o Fedi 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £2,671.02 |
| Derbyniadau | + | £19.97 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£2,690.99** |
| | = | **£20,884.85** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | = | **£ -** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Gillian Thomas | 201285 | £ 274.20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 20,610.65** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** | - | **£ 251.90** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | = | **£ 20,358.75** |

| | |
|---|---|
| **16.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 14eg o Dachwedd, 2023 – Capel Isaf, Llithfaen am 7 y.h |